

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**03/10/2007**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cynnwys**  
**Contents**

- 1 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ  
Questions to the Counsel General and Leader of the House
  
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig  
Questions to the Minister for Rural Affairs

**Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ**  
**Questions to the Counsel General and Leader of the House**

**Welsh Assembly Government**  
**Communications**

**Q3 David Melding:** Will the Counsel General make a statement on Welsh Assembly Government communications? OAQ(3)0020(CGE) *Transferred for written answer by the First Minister*

**The First Minister (Rhodri Morgan):** Communication is an integral part of Government. Communication teams across the Welsh Assembly Government deliver projects and campaigns that inform the public about their rights and responsibilities and provide information on Government policies. This work supports the Government's priorities and covers media handling, paid for publicity, web, internal communications, events and design.

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 3, OAQ(3)0020(CGE), i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Prif Weinidog.

**Responsibilities**

**Q4 Mark Isherwood:** Will the Counsel General outline his responsibilities? OAQ(3)0025(CGE)

**Cyfathrebu Llywodraeth y Cynulliad**

**C3 David Melding:** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am Gyfathrebu Llywodraeth y Cynulliad? OAQ(3)0020(CGE) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Prif Weinidog*

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae cyfathrebu yn rhan annatod o Lywodraeth. Mae timau cyfathrebu ar draws Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni prosiectau ac ymgyrchoedd sy'n hysbysu'r cyhoedd am eu hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn darparu gwybodaeth am bolisiau'r Llywodraeth. Mae'r gwaith hwn yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth ac yn cynnwys trafod y wasg, cyhoeddusrwydd y telir amdano, y rhyngrwyd, cyfathrebu mewnol, digwyddiadau a dylunio.

**The Presiding Officer:** Question 3, OAQ(3)0020(CGE), has been transferred for written answer by the First Minister.

**Cyfrifoldebau**

**C4 Mark Isherwood:** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu ei gyfrifoldebau? OAQ(3)0025(CGE)

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I am the final and authoritative legal adviser to the Welsh Assembly Government and oversee its representation in the courts. I have statutory duties in relation to devolution issues and represent the Welsh Assembly Government in exchanges with the law officers. I can make representations about any matter affecting Wales.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Yr wyf wedi fy mhenodi'n brif gynghorydd cyfreithiol awdurdodol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yr wyf yn goruchwyllo ei chynrychiolaeth yn y llysoedd. Mae gennyf gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â materion datganoli, ac yr wyf yn cynrychioli Llywodraeth y Cynulliad mewn trafodaethau â swyddogion y gyfraith. Yr wyf yn gallu cyflwyno sylwadau ar unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

### **The Rights and Needs of Disabled People**

### **Hawliau ac Anghenion Pobl Anabl**

**Q5 Rosemary Butler:** What legal advice has the Counsel General issued to ensure that the rights and needs of disabled people are met across the Welsh Assembly Government's portfolios? OAQ(3)0007(CGE)

**C5 Rosemary Butler:** Pa gyngor cyfreithiol mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i gyhoeddi i sicrhau bod hawliau ac anghenion pobl anabl yn cael eu diwallu ar draws portffolios Llywodraeth y Cynulliad? OAQ(3)0007(CGE)

**Carwyn Jones:** There is an established convention that neither law officers' advice, nor whether their advice has been given or sought on a particular matter, should be disclosed other than in exceptional circumstances. This convention, underlied by the principle of legal professional privilege, has been adopted in relation to the Counsel General.

**Carwyn Jones:** Ceir rheol sefydledig sy'n datgan na ddylid datgelu cyngor swyddogion y gyfraith, na'r ffaith eu bod wedi rhoi cyngor neu bod rhywun wedi gofyn am eu cyngor ar fater arbennig, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Mae'r rheol hon, sydd wedi'i seilio ar egwyddor braint proffesiynol cyfreithiol, wedi'i mabwysiadu yn achos y Cwnsler Cyffredinol.

### **The Development of Intergovernmental Relations**

### **Datblygu Cysylltiadau Rhynglywodraethol**

**Q6 Andrew R.T. Davies:** What discussions has the Counsel General had with law officers in other devolved administrations regarding the development of intergovernmental relations? OAQ(3)0015(CGE)

**C6 Andrew R.T. Davies:** Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cynnal gyda swyddogion y gyfraith mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch datblygu cysylltiadau rhynglywodraethol? OAQ(3)0015(CGE)

**Carwyn Jones:** I have not had any discussions to date with the Law Officers in the other devolved administrations. However, our officials are in regular contact and I am hoping to hold regular planned meetings with them in future.

**Carwyn Jones:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau hyd yn hyn gyda Swyddogion y Gyfraith mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill. Serch hynny, mae ein swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd ac yr wyf yn gobeithio cynnal cyfarfodydd rheolaidd â nhw yn y dyfodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to the Minister for Rural Affairs

### Supporting the Rural Economy

**Q6 Ann Jones:** Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support the rural economy in Wales? OAQ(3)0045(RAF)

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** Through the momentum of the 'One Wales' programme, the Welsh Assembly Government will support the rural economy through a wide range of initiatives. Within my portfolio, the rural development plan continues to develop the competitiveness of Welsh farming and forestry, enhance the environment and countryside and improve the quality of life in our rural areas.

### Cefnogi'r Economi Wledig

**C6 Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gefnogi'r economi wledig yng Nghymru? OAQ(3)0045(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Ar sail momentwm y rhaglen 'Cymru'n Un', bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi'r economi wledig drwy gyfrwng nifer o wahanol fentrau. O fewn fy mhortffolio i, mae'r cynllun datblygu gwledig yn parhau â'r gwaith o ddatblygu gallu ffermio a choedwigaeth yng Nghymru i gystadlu, yn ogystal â'r gwaith o wella'r amgylchedd a chefn gwlad a gwella ansawdd bywyd yn ein hardaloedd gwledig.

### Cefnogi Pobl Ifanc

**C7 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau i gefnogi pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant ffermio? OAQ(3)0021(RAF)

**C10 Alun Ffred Jones:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal ynghylch cefnogi pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant ffermio? OAQ(3)0023(RAF)

**Elin Jones:** Mae cyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un' ar gyfer pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant ffermio yn flaenoriaeth allweddol yn fy mhortffolio i. Yr wyf yn bwriadu ymgynghori â ffermwyr a charfannau pethnasol eraill yn yr hydref ar becyn o fesurau i gefnogi newydd-ddyfodiaid.

### Supporting Young People

**Q7 Nerys Evans:** Will the Minister make a statement on her plans for supporting young entrants to the farming industry? OAQ(3)0021(RAF)

**Q10 Alun Ffred Jones:** What recent discussions has the Minister held regarding supporting young entrants in the farming industry? OAQ(3)0023(RAF)

**Elin Jones:** Delivering on the 'One Wales' commitment for young entrants is a key priority for my portfolio. It is my intention to consult farming and other countryside interests in the autumn on a package of measures aimed at supporting those new to the industry.

### The Common Agricultural Policy

**Q11 Lynne Neagle:** What assessment has the Minister made of the future impact of the common agricultural policy on Wales? OAQ(3)0033(RAF)

**Elin Jones:** Work is on-going to measure the socio-economic and environmental impacts on Wales of the CAP reform process implemented in 2005. It is too early to

### Y Polisi Amaethyddol Cyffredin

**C11 Lynne Neagle:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud gan y Gweinidog o effaith y polisi amaethyddol cyffredin ar Gymru yn y dyfodol? OAQ(3)0033(RAF)

**Elin Jones:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i fesur yr effaith economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a gafodd y broses o ddiwygio'r PAC yn 2005 ar Gymru. Mae'n

speculate about the potential for further change to the CAP.

### **The Food and Drinks Industry**

**Q12 David Melding:** What measures are in place to promote the food and drinks industry in South Wales Central? OAQ(3)0005(RAF)

**Elin Jones:** The Welsh Assembly Government runs a number of marketing and trade development programmes to promote the Welsh food and drink industry, including the popular True Taste Awards.

### **Bovine TB**

**Q13 Andrew R.T. Davies:** Will the Minister provide an update on measures to tackle bovine TB in Wales? OAQ(3)0016(RAF)

**Elin Jones:** I am sure that you welcome our commitment within 'One Wales' to pursue the eradication of bovine TB in Wales. I will be giving priority to developing an eradication programme for bovine TB, building on recent initiatives such as pre-movement testing, gamma interferon and the biosecurity intensive treatment area.

### **Foot and Mouth Disease**

**Q14 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on the recent outbreak of foot and mouth disease in the UK? OAQ(3)0014(RAF)

**Elin Jones:** I made statements in plenary on 18th and 25th September. Farm to farm movements have been allowed. From 4 October, markets will be allowed providing the disease situation remains the same. I am in discussions about the light lamb market, a welfare disposal scheme and regionalisation for exports.

rhy gynnar i drafod y posibilrwydd o newidiadau pellach i'r PAC.

### **Y Diwydiant Bwyd a Diod**

**C12 David Melding:** Pa gamau sydd ar waith i hyrwyddo'r diwydiant bwyd a diod yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0005(RAF)

**Elin Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu nifer o raglenni datblygu masnach a marchnata i hybu diwydiant bwyd a diod Cymru. Mae hyn yn cynnwys y Gwobrau Gwir Flas sy'n boblogaidd iawn.

### **TB mewn Gwartheg**

**C13 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg yng Nghymru? OAQ(3)0016(RAF)

**Elin Jones:** Mae'n siŵr eich bod yn croesawu ein hymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i fwrw ymlaen â'r gwaith o gael gwared ar TB mewn gwartheg yng Nghymru. Byddaf yn rhoi blaenoriaeth i ddatblygu rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg, gan adeiladu ar fentrau diweddar megis profion cyn symud, gama interfferon a'r ardal driniaeth ddwys bioddiogelwch.

### **Clwy'r Traed a'r Genau**

**C14 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr achosion diweddar o glwy'r traed a'r genau yn y DU? OAQ(3)0014(RAF)

**Elin Jones:** Cyflwynais ddatganiadau yn y cyfarfod llawn ar 18 a 25 Medi. Caniateir symudiadau o fferm i fferm. O 4 Hydref ymlaen, caniateir symudiadau i farchnadoedd cyn belled â bod y sefyllfa o ran y clefyd yn aros yr un peth. Yr wyf wrthi'n cynnal trafodaethau ynghylch y farchnad ŵyn ysgafn, cynllun gwaredu er lles da byw a rhanbartholi allforion.